**HYSBYSIAD O GYNNIG**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT (FFYRDD AMRYWIOL) (TERFYN CYFLYMDER 20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A THERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A HEB GYFYNGIAD) (A5119 & RAIKES LANE, YR WYDDGRUG) (TERFYN CYFLYMDER 30MYA) (DIWYGIAD RHIF 07) 202-**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnig gwneud Gorchymyn drwy arfer ei bwerau dan Adran 82 (2) (a) a 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a Rhan IV Atodlen 9 y Ddeddf, a'r holl bwerau galluogi eraill, gyda'r effaith o ddiwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a Therfynau Cyflymder Cenedlaethol. Ffyrdd Cyfyngedig a heb Gyfyngiad) 2023, i gyflwyno:

a) Terfyn cyflymder o 30mya ar:

**A5119 Heol y Brenin, yr Wyddgrug:** o bwynt sydd 25 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Bro Alun i bwynt sydd 85 metr o'i chyffordd â'r A5119 yn y goleuadau traffig yn Rhyd y Galed, i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain.

**A5119, Yr Wyddgrug (i Sychdyn)** o'i chyffordd â'r A5119 yng ngoleuadau traffig Rhyd y Galed, am bellter o 51 metr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain.

**Raikes Lane, yr Wyddgrug:**
O'i chyffordd â'r A5119 Stryd y Brenin, i bwynt 76 metr i'r de o'i chyffordd â Ffordd Wasanaeth Theatr Clwyd, yr Wyddgrug.

Bydd y Gorchymyn arfaethedig, os caiff ei wneud yn diddymu Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (A5119 Rhyd Y Galed i Heol y Brenin, Yr Wyddgrug) (Ffordd Gyfyngedig) (Dirymu) 2015 yn ei gyfanrwydd a bydd yn cael ei gydgrynhoi yng Ngorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a Therfynau Cyflymder Cenedlaethol Ffyrdd Cyfyngedig a Heb eu Cyfyngu) 2023.

Ym mhob ystyr arall, bydd darpariaethau presennol Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a'r Terfynau Cyflymder Cenedlaethol. Ffyrdd Cyfyngedig a Heb Gyfyngiad) 2023 yn parhau mewn grym.

Gellir gweld copi o'r Hysbysiad, y Gorchymyn arfaethedig, ynghyd ag Atodlenni Mapiau yn dangos y darnau o ffyrdd y mae'r cynnig yn effeithio arnynt a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn, yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Llyfrgell yr Wyddgrug, Earl Road Yr Wyddgrug CH7 1AP yn ystod oriau agor neu fe allwch eu gweld ar ein gwefan www.siryffint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy e-bostio streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, yn ogystal â'r rhesymau dros eu gwneud, yn ysgrifenedig at yr unigolyn yn y cyfeiriad isod neu trwy e-bostio transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk (gan ddyfynnu'r cyfeirnod SS/JB/RL/30mph/07) erbyn dydd Gwener 18 Ebrill 2025.

Dyddiedig Dydd Gwener 28 Mawrth 2025
Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. CH7 6NF
Mae hyn yn disodli'r cynnig blaenorol, a hysbysebwyd ar 15 Tachwedd 2024.